# Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015

**2015 dccc 1**

## RHAN 2

CYNLLUNIAU FFIOEDD A MYNEDIAD

*Cynnwys cynllun ffioedd a mynediad*

### 6 Hybu cyfle cyfartal ac addysg uwch

(1) Rhaid i gynllun ffioedd a mynediad sy'n ymwneud â sefydliad gynnwys unrhyw ddarpariaethau a ragnodir sy'n ymwneud â hybu cyfle cyfartal neu hybu addysg uwch.

(2) Caiff cynllun ffioedd a mynediad hefyd gynnwys darpariaethau pellach sy'n ymwneud â hybu cyfle cyfartal neu hybu addysg uwch.

(3) Mae'r darpariaethau y caniateir eu rhagnodi o dan is-adran (1) i'w cynnwys mewn cynllun yn cynnwys darpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r corff llywodraethu—

(a) cymryd camau i ddenu ceisiadau gan ddarpar fyfyrwyr sy'n aelodau o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol (neu sicrhau bod camau o'r fath yn cael eu cymryd);

(b) cymryd camau i gadw myfyrwyr sy'n aelodau o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol (neu sicrhau bod camau o'r fath yn cael eu cymryd);

(c) darparu cymorth ariannol i fyfyrwyr (neu sicrhau bod cymorth o'r fath yn cael ei ddarparu);

(d) rhoi gwybodaeth ar gael i fyfyrwyr neu ddarpar fyfyrwyr ynghylch y cymorth ariannol sydd ar gael i fyfyrwyr o unrhyw ffynhonnell (neu sicrhau bod gwybodaeth o'r fath yn cael ei rhoi ar gael).

(4) Mae'r darpariaethau y caniateir eu rhagnodi i'w cynnwys mewn cynllun hefyd yn cynnwys darpariaethau—

(a) sy'n nodi amcanion sy'n ymwneud â hybu cyfle cyfartal a hybu addysg uwch;

(b) sy'n nodi gwybodaeth am wariant mewn cysylltiad â'r amcanion hynny;

(c) sy'n ymwneud â'r monitro gan y corff llywodraethu o—

(i) cydymffurfedd â darpariaethau'r cynllun;

(ii) y cynnydd sydd wedi ei wneud i gyflawni unrhyw amcanion a nodir yn y cynllun yn rhinwedd paragraff (a).

(5) Ond ni chaniateir i'r pŵer i ragnodi darpariaethau i'w cynnwys mewn cynllun ffioedd a mynediad gael ei arfer er mwyn ei gwneud yn ofynnol i gynllun sy'n ymwneud â sefydliad gynnwys darpariaeth—

(a) sy'n cyfeirio at gyrsiau penodol neu at y dull o addysgu, goruchwylio neu asesu cyrsiau,

(b) sy'n ymwneud â'r meini prawf ar gyfer derbyn myfyrwyr, neu

(c) sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r sefydliad fynd i wariant, mewn unrhyw flwyddyn academaidd, o swm sy'n mynd uwchlaw swm incwm ffioedd cymhwysol y sefydliad y gellir ei briodoli i'r flwyddyn academaidd honno.

(6) At ddibenion yr adran hon—

(a) swm incwm ffioedd cymhwysol sefydliad y gellir ei briodoli i flwyddyn academaidd yw cyfanswm y ffioedd hynny sy'n daladwy i'r sefydliad, mewn cysylltiad â'r flwyddyn academaidd honno, y mae terfyn ffioedd a bennir yn y cynllun ffioedd a mynediad sy'n ymwneud â'r sefydliad yn gymwys mewn perthynas ag ef, neu y mae'r cynllun ffioedd a mynediad sy'n ymwneud â'r sefydliad yn darparu ar gyfer penderfynu arno;

(b) "grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol", mewn perthynas â chynllun ffioedd a mynediad, yw grwpiau nad oes ganddynt, ar ddyddiad cymeradwyo'r cynllun o dan adran 7, gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch.

(7) Mae cyfeiriadau yn y Ddeddf hon at ofynion cyffredinol cynllun ffioedd a mynediad yn gyfeiriadau at ddarpariaethau sydd wedi eu cynnwys yn y cynllun yn rhinwedd yr adran hon sy'n ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu sefydliad wneud (neu beidio â gwneud) pethau penodedig.